Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Independent Office for Police Conduct

# Cwestiynau Cyffredin (FAQs)

# Cwestiynau ar ôl penderfyniad am adolygiadau yn dilyn ymchwilio i gwynion

**Mawrth 2024**

# Cynnwys

**Cynnwys** ..... **2**

**3 Ar ôl yr adolygiad** ..... **3**

3.1 Beth yw canlyniadau posibl adolygiad? ..... 3

3.2 Beth sy'n digwydd os yw fy nghais am adolygiad yn cael ei gadarnhau? ..... 3

3.3 Beth sy'n digwydd nesaf os yw SAYH yn gwneud argymhelliad i awdurdod priodol neu pan mae'n ofynnol iddynt ymchwilio i fy nghwynion? ..... 4

3.4 A fydd SAYH yn ymchwilio i fy nghwynion? ..... 4

3.5 A allaf gyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y penderfyniad? ..... 4

3.6 Mae'r penderfyniad yn cyfeirio at *'rhesymol a chymesur'*. Beth mae hyn yn ei olygu? ..... 5

3.7 A yw SAYH yn gallu gwneud penderfyniadau ar gwynion am gyfreithlondeb? ..... 5

3.8 Beth sy'n digwydd os nad wyf yn cytuno â phenderfyniad SAYH? ..... 5

3.9 Beth sy'n digwydd os nad wyf yn cytuno â phenderfyniad y corff plismona lleol ar fy nghais am adolygiad? ..... 6

3.10 Sut ydw i'n cwyno am ymddygiad y swyddog ymchwilio a ystyriodd fy nghwynion? ..... 6

3.11 A yw SAYH yn delio â hawliadau iawndal? ..... 6

3.12 A yw SAYH yn gallu gwneud i'r heddlu ymddiheuro i mi? ..... 6

3.13 Beth sy'n digwydd os nad wyf yn hapus â'r gwasanaeth a dderbyniais oddi wrth y SAYH? ..... 7

**Geirfa** ..... **8**

Mae'r ddogfen hon yn barhad o'r cwestiynau cyffredin cyn penderfyniad. Mae'r ddogfen cwestiynau cyffredin hon yn darparu gwybodaeth am beth sy'n digwydd **ar ôl** i benderfyniad am eich cais am adolygiad gael ei wneud. I gael gwybodaeth ar yr hyn sy'n digwydd **cyn i** benderfyniad gael ei wneud, cyfeiriwch at ein cwestiynau cyffredin cyn penderfyniad.

# 3 Ar ôl yr adolygiad

## 3.1 Beth yw canlyniadau posibl adolygiad?

Edrychwyd ar yr holl dystiolaeth y gwnaethoch chi a'r **heddlu** ei ddarparu i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH) pan wnaethom ein penderfyniad.

Gall canlyniad eich cais am adolygiad naill ai gael ei *'gadarnhau'* neu *'heb ei gadarnhau'* (gweler yr eirfa isod am ddiffiniad o'r termau hyn).

Os **na** chafodd eich cwyn ei thrin gan yr heddlu y gwnaethoch gwyno yn ei erbyn, gweler yr eirfa ar yr 'awdurdod priodol' ar ddiwedd y ddogfen hon.

## 3.2 Beth sy'n digwydd os yw fy nghais am adolygiad yn cael ei gadarnhau?

Os ydym yn cadarnhau eich cais am adolygiad, gallwn fod wedi dweud wrth yr heddlu lleol:

- y dylent ailymchwilio i'ch cwyn neu
- rydym yn dod i'r casgliad fod gan unigolyn achos i'w ateb mewn perthynas â chamymddwyn neu gamymddwyn difrifol (gweler yr eirfa isod am ddiffiniad o'r termau hyn) ac yn argymell camau neu achos disgyblu a/neu
- rydym wedi gwneud argymhellion i'r awdurdod priodol (gweler yr eirfa isod am ddiffiniad o'r term hwn). Er enghraifft, datrysiad Paragraff 28ZA, atgyfeiriad at y Broses Adolygu Arfer Myfyriol neu Weithdrefnau Perfformiad Anfoddhaol (gweler yr eirfa isod am ddiffiniad o'r termau hyn).

Os ydym wedi gwneud argymhellion i'r awdurdod priodol, yna mae'n rhaid iddynt eu hystyried ac ymateb i ni.

Mae argymhelliad yn weithred mae SAYH yn ei gynnig y dylai'r awdurdod priodol ei gyflawni o ganlyniad i'r adolygiad. Nid oes rhaid i argymhellion gael eu dilyn.

Nid ydym yn gwneud argymhellion ym mhob achos, hyd yn oed pan fyddwn wedi cadarnhau cais am adolygiad. Rydym yn edrych ar hyn ar sail achosion unigol.

## 3.3 Beth sy'n digwydd nesaf os yw SAYH yn gwneud argymhelliad i awdurdod priodol neu pan mae'n ofynnol iddynt ymchwilio i fy nghwynion?

Dylai'r heddlu gysylltu â chi yn uniongyrchol i'ch hysbysu o unrhyw argymhellion rydym yn eu gwneud. Byddwn yn cadw mewn cysylltiad â'r awdurdod priodol i fonitro ei ymateb.

Lle yr ymgymerwyd ag ymchwiliad gan yr heddlu, dylai'r swyddog sy'n ymchwilio ddarparu diweddariad i chi bob 28 diwrnod. Os nad ydych wedi clywed oddi wrthynt **o fewn 28 diwrnod**, cysylltwch â nhw yn uniongyrchol. Ar ddiwedd yr ymchwiliad, cynigir hawl i adolygiad i chi i'r *Corff Adolygu Perthnasol* (gweler yr eirfa isod am ddiffiniad o'r term hwn).

## 3.4 A fydd SAYH yn ymchwilio i fy nghwynion?

Na.

Lle mai ni yw'r *Corff Adolygu Perthnasol* (gweler yr eirfa isod am ddiffiniad o'r term hwn), ni fyddwn yn ymchwilio i'ch cwynion, ond byddwn yn ystyried os oedd y canlyniad a roddwyd i chi yn dilyn yr ymchwiliad i'ch cwyn, yn rhesymol a chymesur.

Mae yna achosion pan fydd SAYH yn ymchwilio i'r digwyddiad gwreiddiol. Rydym ond yn ymchwilio i'r digwyddiadau a'r honiadau mwyaf difrifol a sensitif yn ymwneud â'r heddlu. Am ragor o wybodaeth, ewch i: [www.policeconduct.gov.uk/investigations](http://www.policeconduct.gov.uk/investigations).

## 3.5 A allaf gyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y penderfyniad?

Na.

**Ni allwch** ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar ôl i benderfyniad y SAYH gael ei wneud. Yr adeg pan wnaethoch gyflwyno'ch apêl oedd y cyfle i ddarparu'r holl wybodaeth angenrheidiol i'w hystyried i ni.

## 3.6 Mae'r penderfyniad yn cyfeirio at *‘rhesymol a chymesur’*. Beth mae hyn yn ei olygu?

Wrth benderynu a oedd y canlyniad yn rhesymol a chymesur, byddwn yn edrych ar ba weithredoedd y cymerodd y swyddog ymchwilio i fynd i'r afael â'ch cwyn, a gymerodd y swyddog ymchwilio ystyriaeth o unrhyw ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd perthnasol, a ymgysylltodd y swyddog ymchwilio yn ddigonol â chi er mwyn deall y gŵyn yn llawn, a ddilynodd y canfyddiadau a phenderfyniadau yn rhesymegol o'r wybodaeth neu'r dystiolaeth a gafwyd ac a adnabu'r swyddog ymchwilio unrhyw botensial am ddysgu.

## 3.7 A yw SAYH yn gallu gwneud penderfyniadau ar gwynion am gyfreithlondeb?

Na.

Gallai eich cwyn fod ynghylch cyfreithlondeb ymddygiad unigolyn sy'n gwasanaethu â'r heddlu (er enghraifft, gall gael ei honni bod arestiad neu chwiliad o'ch cartref yn anghyfreithlon). Nid ydym yn gallu cyrraedd penderfyniad yn y canlyniad ynghylch os oes ymddygiad troseddol neu anghyfreithlondeb sifil wedi bod. Mater i'r llysoedd troseddol a sifil yw cyrraedd penderfyniadau ar y materion hyn a/neu'r rheini sy'n cynnal achosion disgyblaethol. Gallwn ddewis mynegi 'barn' mewn rhai amgylchiadau ar fater cyfreithlondeb lle ei fod yn briodol.

## 3.8 Beth sy'n digwydd os nad wyf yn cytuno â phenderfyniad SAYH?

Mae'r holl benderfyniadau mae SAYH yn eu gwneud yn derfynol.

**Nid oes hawl i apelio**yn erbyn ein penderfyniad yn dilyn adolygiad. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu fod angen rhagor o wybodaeth arnoch ar ein penderfyniad, cysylltwch â'r rheolwr gwaith achos a anfonodd y llythyr penderfyniad fel y gall esbonio ei resymu ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Mae ein penderfyniadau yn gallu cael eu gwyrdroi gan y llysoedd yn unig trwy'r broses adolygiad barnwrol. Sylwch, mae terfyn amser 3-mis os dymunwch gael adolygiad barnwrol i benderfyniad SAYH. Gallwch ddymuno ceisio'ch cyngor cyfreithiol annibynnol eich hun os ydych yn bwriadu dilyn y cam gweithredu hwn.

## 3.9 Beth sy'n digwydd os nad wyf yn cytuno â phenderfyniad y corff plismona lleol ar fy nghais am adolygiad?

Os ydych wedi cyflwyno cais am adolygiad i'r corff plismona lleol eisoes (gweler yr eirfa isod am ddiffiniad o'r term hwn) fel y Corff Adolygu Perthnasol, yna ni allwch gyflwyno cais arall am adolygiad i SAYH am benderfyniad a wnaed eisoes.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu fod angen rhagor o wybodaeth arnoch am benderfyniad y corff plismona lleol, cysylltwch â'r unigolyn a ystyriodd eich cwynion fel y gall esbonio ei resymu ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Bydd eu manylion yn y llythyr penderfyniad y gwnaethoch ei dderbyn.

## 3.10 Sut ydw i'n cwyno am ymddygiad y swyddog ymchwilio a ystyriodd fy nghwynion?

Nid yw SAYH yn gallu edrych ar eich cwyn am ymddygiad y swyddog ymchwilio neu'r gwasanaeth y gwnaethoch ei dderbyn oddi wrthynt. Os ydych yn dymuno cyflwyno cwyn yn erbyn yr unigolyn hwn, bydd angen i chi gysylltu ag Adran Safonau Proffesiynol gwasanaeth yr heddlu. Dylai eu manylion fod yn y llythyr esboniadol y gwnaethoch ei dderbyn neu gallwch gyrchu gwefan SAYH am ffurflen gŵyn.

## 3.11 A yw SAYH yn delio â hawliadau iawndal?

Na.

Nid yw cylch gorchwyl y SAYH yn cwmpasu hawliadau am iawndal gan yr heddlu. Os ydych am fynd ar drywydd unrhyw hawliadau ariannol yn erbyn yr heddlu, dylech gysylltu â'r heddlu dan sylw. Gallwch hefyd gysylltu â'ch swyddfa Cyngor ar Bopeth leol am ragor o wybodaeth neu i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

## 3.12 A yw SAYH yn gallu gwneud i'r heddlu ymddiheuro i mi?

Na.

Gall y SAYH argymell bod ymddiheuriad yn cael ei gynnig, ond ni allwn gyfarwyddo’r heddlu i ddarparu hyn i chi.

## 3.13 Beth sy'n digwydd os nad wyf yn hapus â'r gwasanaeth a dderbyniais oddi wrth y SAYH?

Os ydych yn anhapus â'r gwasanaeth y gwnaethoch ei dderbyn, gallwch wneud cwyn i Dîm Cwynion & Adborth y SAYH. Bydd aelod o'r tîm yn asesu'ch cwyn ac yn edrych ar y gwasnaeth y gwnaethoch ei dderbyn gan ein staff. Ni fydd yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon nac ymholiadau am benderfyniadau a wneir gan SAYH. Gallwch gysylltu a Thîm Cwynion & Adborth y SAYH trwy anfon e-bost at: feedback@policeconduct.gov.uk.

# Geirfa

**Awdurdod Priodol (AP)**

AP yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am ystyried cwynion.

Yn y rhan fwyaf o achosion, yr AP fydd prif swyddog y llu heddlu y mae anfodlonrwydd yn cael ei fynegi amdano neu, lle mae cwyn yn ymwneud ag ymddygiad unigolyn, y prif swyddog sydd â chyfarwyddyd a rheolaeth dros yr unigolyn hwnnw. Ar gyfer y rhan fwyaf o heddluoedd, y prif swyddog yw'r Prif Gwnstabl. I Wasanaeth Heddlu'r Metropolitan a Heddlu Dinas Llundain y Comisiynydd ydyw. Mewn rhai achosion, gallai'r Awdurdod Priodol fod y Corff Plismona Lleol (LPB). Os yw cwyn yn ymwneud ag ymddygiad prif swyddog neu brif swyddog dros dro, yr AP yw'r Corff Plismona Lleol sydd â chyfrifoldeb dros ardal y llu hwnnw.

**Achos i'w Ateb**

Mae "achos i'w ateb" yn golygu bod y swyddog ymchwiliol neu'r rheolwr gwaith achos o'r farn fod tystiolaeth ddigonol y gall fod toriad Safonau Ymddygiad Proffesiynol wedi bod (gweler isod am ddiffiniad o'r term hwn).

Wrth benderfynu bod gan unigolyn sy'n gwasanaethu â'r heddlu achos i'w ateb am gamymddwyn, maer'n rhaid i'r swyddog ymchwiliol neu'r rheolwr gwaith achos wedyn benderfynu:

- os yw'r toriad honedig o'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mor ddifrifol i gyfiawnhau camau disgyblu, ac
- os dylai achos camymddwyn gael ei ddwyn yn erbyn y swyddog dan sylw ac, os felly, pa ffurf ddylai'r achos camymddwyn ei gymryd.

**Llinellau Ymholi**

Mae llinellau ymholi yn cyfeirio at feysydd ymchwilio ac archwilio at ddiben casglu tystiolaeth neu wybodaeth mewn ymchwiliad. Os cawsoch eich adnabod fel rhan o ail ymchwiliad eich cwynion, byddai'r rheolwr gwaith achos wedi manylu ar hyn yn ei lythyr penderfyniad.

**Corff Plismona Lleol (LPB)**

Ar gyfer y rhan fwyaf o ardaloedd y LPB yw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae LPBs yn gyfrifol am gyflawni adolygiadau lle maen nhw'n Gorff Adolygu Perthnasol. Gall LPBs fod wedi dewis cymryd cyfrifoldeb dros swyddogaethau

ychwanegol penodol yn yr ymdriniaeth gychwynnol o gwynion a'r ddarpariaeth o wybodaeth a fyddai fel arall yn cael eu cyflawni gan y prif swyddog neu AP.

**Heb ei Gadarnhau**

Os nad yw adolygiad yn cael ei gadarnhau, mae'n golygu bod canlyniad eich cwyn yn rhesymol a chymesur. Os ydych yn anhapus â'r penderfyniad sy'n ymwneud â'ch cais am adolygiad, cysylltwch â'r rheolwr gwaith achos a asesodd eich achos ac a ddarparodd y llythyr penderfyniad terfynol i chi. Sylwch, nid oes hawl i apêl ychwanegol yn erbyn y penderfyniad hwnnw nac opsiwn i newid y canlyniad gan ei fod yn derfynol (cyfeiriwch at bwynt 3.6 uchod).

**Datrysiad paragraff 28ZA**

Mae hon yn weithred y gall ac y dylai'r AP ei chymryd fel rhan o ymdrin a'r gŵyn i unioni eich anfodlonrwydd. Gallant ddarparu datrysiad lle mae rhywbeth wedi mynd o'i le er enghraifft, lle mae methiant wedi digwydd, neu nad yw'r gwasanaeth wedi bod yn ddigonol. Mae datrysiad effeithiol ac amserol yn dangos atebolrwydd ac mae'n helpu i ailadeiladu ymddiriedaeth yn yr heddlu ac mae'n sicrhau hyder yn y system gwynion. Gall gymryd ffurf ymddiheuriad, dychwelyd eiddo a feddiannwyd, adolygu gwybodaeth ar gronfeydd data neu gofnodion heddlu, darparu cyfryngiad, cynnal cyfarfod gwella gwasanaeth (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr).

**Argymhellion**

Gall argymhellion gael eu dosbarthu gan SAYH i AP pan fydd cais am adolygiad yn cael ei gadarnhau. Mae argymhelliad yn weithred mae SAYH yn cynghori i'r AP ei chyflawni o ganlyniad i'r adolygiad. Mae'n rhaid i'r AP ystyried yr argymhelliad gan SAYH ac ymateb i SAYH ond nid oes rhaid gweithredu'r argymhelliad o reidrwydd. Disgwylir y cydymffurfir ag argymhellion heblaw bod rheswm da i beidio â gwneud.

**Proses Adolygu Arfer Myfyriol (RPRP)**

Nid yw'r Broses Adolygu Arfer Myfyriol yn broses ddisgyblaethol nac yn ganlyniad disgyblaethol. Y bwriad yw darparu amgylchedd agored i annog pawb sy'n ymwneud â'r broses i fyfyrio, dysgu a, lle bod angen, unioni pethau ac atal unrhyw faterion a nodir rhag ddigwydd eto. Mae'n gymwys i swyddogion heddlu yn unig, nid staff heddlu.

**Corff Adolygu Perthnasol (RRB)**

RRB yw'r sefydliad fydd yn ymdrin â'ch cais am adolygiad.

Mae hawl adolygiad i'r RRB yn dilyn canlyniad yr AP o gŵyn a gofnodwyd os yw hyn naill ai trwy ymchwiliad, neu fath arall o ymdriniaeth.

Mae'r hawl i ymgeisio am adolygiad naill ai i'r LPB neu'r SAYH. SAYH yw'r RRB ar gyfer cwynion lle:

i. yr AP yw LPB
ii. mae'r gŵyn ynglŷn ag ymddygiad uwch swyddog (swyddog sy'n dal rheng uwchlaw prif uwch-arolygydd)
iii. nid yw'r AP yn gallu bodloni ei hun, o'r gŵyn yn unig, na fyddai'r ymddygiad y cwynwyd amdano (pe byddai'n cael ei brofi) yn cyfiawnhau dod âg achos troseddol neu ddisgyblaethol neu na fyddai'n cynnwys torri hawliau unigolyn o dan Erthygl 2 neu 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
iv. mae'r gŵyn wedi cael, neu mae'n rhaid, ei hatgyfeirio at SAYH
v. mae'r SAYH yn trin y gŵyn fel pe byddai wedi cael ei hatgyfeirio (hefyd yn cael ei adnabod fel 'pŵer blaengaredd', gweler paragraffau 9.36 - 9.39 o Gyfarwyddyd Statudol y SAYH)
vi. mae'r gŵyn yn codi o'r un digwyddiad â chwyn yn syrthio o fewn ii-v
vii. mae unrhyw ran o'r gŵyn yn syrthio o fewn ii-vi

Y LPB yw'r RRB ar gyfer unrhyw gwynion nad ydynt yn cydweddu â'r rhestr o amgylchiadau uchod.

**Gweithdrefnau Arbennig**

Lle mae'r ymchwiliad wedi cael ei ddatgan yn ddarostyngedig i "weithdrefnau arbennig", mae'n golygu y credodd y swyddog ymchwiliol fod awgrym y gall camwedd troseddol fod wedi cael ei gyflawni neu y gall y swyddog fod wedi ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau dod ag achos disgyblaethol. Nid pob achos a ymchwilir iddynt fydd yn destun "gweithdrefnau arbennig". Bydd y swyddog ymchwiliol yn ystyried hyn fesul achos neu pan ddaw tystiolaeth newydd i'r amlwg.

**Safonau Ymddygiad Proffesiynol**

Mae cyfanswm o ddeg safon ac maent yn berthnasol i bob swyddog heddlu a chwnstabl gwirfoddol. Mae'n nhw'n cynnwys y safonau sy'n ymwneud â (1) Gonestrwydd a Chywirdeb, (2) Awdurdod, Parch a Chwrteisi, (3) Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, (4) Defnydd Grym, (5) Gorchmynion a Chyfarwyddiadau, (6) Dyletswyddau a Chyfrifoldeb, (7) Cyfrinachedd, (8) Addasrwydd ar gyfer Dyletswydd, (9) Ymddygiad Annheilwng a (10) Herio ac Adrodd am Ymddygiad Anghywir. Mae'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol ar gyfer staff heddlu yn debyg.

**Gweithdrefnau Perfformiad Anfoddhaol (UPP)**

Pwrpas UPP yw gwella perfformiad unigolion a pherfformiad cyffredinol y llu. Nid yw'n gymwys i uwch swyddogion, staff heddlu na staff ar gontract. Mae UPP yn wahanol i gamymddwyn a chamymddwyn difrifol. Mae'n ymwneud ag anallu neu fethiant y swyddog neu gwnstabl arbennig i berfformio'i rôl i lefel foddhaol. Gall ei berfformiad fod yn anfoddhaol ond ddim yn groes i Safonau Ymddygiad Proffesiynol yr heddlu.

**Wedi'i Gadarnhau**

Os nad yw eich cais am adolygiad yn cael ei gadarnhau, rydym yn cytuno bod canlyniad eich cwyn yn rhesymol a chymesur. Byddwn yn datgan yn eich llythyr penderfyniad ei fod yn angenrheidiol i'r AP naill ai:

- ail-ymchwilio i'ch cwynion neu
- ystyried ein hargymhellion ar gyfer camau disgyblu neu achos a/neu
- ystyried ein hargymhelliad ar gyfer *datrysiad Paragraff 28ZA*, atgyfeiriad at y *Broses Adolygu Arfer Myfyriol* neu *Weithdrefnau Perfformiad Anfoddhaol* (gweler geirfa uchod am ddiffiniad o'r termau hyn).

Sylwch: Mae'r wybodaeth hon ar gael yn y Gymraeg ar ein gwefan: www.policeconduct.gov.uk.

Cyhoeddwyd Mis Mawrth 2024


**© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2024)**

OGL Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.


I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:


**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH)**
**10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU**
Ffôn: **0300 020 0096**
E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**
Neges destun: **18001 020 8104 1220**


Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® CSE